NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Cyflyrau niwrolegol a amheuir: Adnabod ac atgyfeirio

1 Mai 2019

## *Adnabod cyflyrau niwrolegol mewn plant, pobl ifanc ac oedolion*

Mae cyflwr niwrolegol yn salwch neu'n anaf sy'n effeithio ar yr ymennydd, yr asgwrn cefn, cyhyrau neu nerfau. Mae llawer o wahanol gyflyrau niwrolegol. Mae rhai yn gyflyrau gydol oes ac mae rhai yn gwella dros amser. Gellir eu hetifeddu, fel dystroffi'r cyhyrau. Gallant hefyd ddatblygu yn ystod plentyndod, fel rhai mathau o epilepsi. Mae rhai cyflyrau, megis Clefyd niwronau motor neu glefyd Parkinson, yn fwy cyffredin yn ddiweddarach mewn bywyd. Gall problemau niwrolegol hefyd godi'n sydyn ar unrhyw oedran, ar ôl anaf i'r pen neu strôc.

Mae a wnelo un o bob 10 ymweliad â meddygon teulu â symptomau niwrolegol. Mae'r symptomau yn amrywio'n fawr, o leferydd a'r cof i broblemau sy'n ymwneud â'r cyhyrau, symud, cydbwysedd a chydsymud. Mae cyflyrau niwrolegol yn aml yn edrych fel llawer o gyflyrau eraill, sy'n golygu eu bod yn anodd eu hadnabod.

Rydym am sicrhau y bydd y canllaw hwn yn gwneud gwahaniaeth i unrhyw un y gallai fod ganddo gyflwr niwrolegol drwy sicrhau'r canlynol:

- gall meddygon teulu adnabod pryd y gallai fod rheswm niwrolegol dros symptomau
- mae meddygon teulu a meddygon mewn adrannau achosion brys yn gwybod pryd i atgyfeirio pobl at arbenigwr ar unwaith a phryd i gynnal rhagor o brofion yn gyntaf
- gall pobl y mae angen iddynt weld arbenigwr fwyaf weld un ynghynt
- dim ond os bydd angen gwneud hynny y caiff pobl eu hatgyfeirio at arbenigwr.

## *Gweithio gyda chi*

Dylai eich meddyg teulu roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Dylai egluro:



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- yr hyn y mae'n amau ei fod yn achosi eich symptomau a beth fydd yn digwydd nesaf
- os bydd angen i chi weld arbenigwr, pa mor gyflym y dylech ddisgwyl cael eich gweld.

Os na allwch ddeall y wybodaeth a roddir i chi, dywedwch hynny wrth eich meddyg teulu.

Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### *Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?*

Ceir rhagor o wybodaeth am wahanol gyflyrau niwrolegol ar wefan y GIG. Mae NICE hefyd wedi llunio canllawiau ar rai cyflyrau niwrolegol.

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o gyngor a chefnogaeth i chi.

- Sefydliad yr Ymennydd a'r Asgwrn Cefn, 0808 808 1000
- Gweithredu dros Epilepsi, 0808 800 5050
- Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor, 0808 802 6262
- Muscular Dystrophy UK, 0800 652 6352
- Parkinson's UK, 0808 800 0303
- Cymdeithas Strôc, 0303 3033 100

Nid yw NICE yn gyfrifol am gynnwys y gwefannau hyn.

I rannu profiad o ofal rydych wedi'i gael, cysylltwch â'ch grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Lluniwyd y canllaw hwn ar y cyd â phobl y mae cyflyrau niwrolegol wedi effeithio arnynt a staff sy'n eu trin a'u cefnogi. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

ISBN: 978-1-4731-2805-7



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.